**LC426**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Diddymu Pwyllgor Ymgynghorol dros Gymru (Asiantaeth yr Amgylchedd) 2002**

Mae hwn yn diddymu'r pwyllgor ymgynghorol a sefydlwyd o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i gynghori Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach) mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru. O ganlyniad mae'r Gorchymyn yn diddymu'r ddarpariaeth statudol y sefydlwyd y Pwyllgor Ymgynghorol odani.

Bydd y Cynulliad o hyn allan yn casglu gwybodaeth yn uniongyrchol mewn perthynas â'r materion hynny y bu'r Pwyllgor Ymgynghorol yn cynghori'r Cynulliad arnynt hyd yn hyn.

Mae unrhyw eiddo, hawliau neu rwymedigaethau'r Pwyllgor Ymgynghorol yn cael eu trosglwyddo i'r Cynulliad.

**Rheol Sefydlog 11.5**
Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad yn ffurfiol i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

Serch hynny, mae dau fater teipograffyddol wedi'u nodi isod y bydd angen eu cywiro cyn i'r Gorchymyn gael ei wneud.

**Materion teipograffyddol**
Yn Erthygl 1(1) dylai “2001” fod yn “2002” yn y ddau destun.

Yn y geiriau mewn cromfachau o dan bennawd y nodyn esboniadol,
dylid rhoi 'Gorchymyn' yn lle 'Rheoliadau' yn y testun Cymraeg ac mae angen dileu ‘Regulations/’ o'r testun Saesneg.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Cronicliadau a'r Rhaglith**

Buasai o gymorth pe bai'r cronicliad cyntaf yn cyfeirio at Ran 1 o Atodlen 4 yn ogystal ag adran 28 a buasai'n dra dymunol pe bai'r rhaglith yn gwneud hynny hefyd.  Byddai'n briodol cynnwys diwygiadau o'r fath mewn Memorandwm Cywiriadau.

**Erthygl 1(3)**

Mae hon yn ailadrodd diffiniad sy'n cael ei ddarparu yn y cronicliad cyntaf, ond yn gwneud hynny ar gyfer yr un term hwn yn unig.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

26 Chwefror 2002